OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3378

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2009

**Darpariaeth drosiannol**

**13.** Mewn unrhyw achos ar gyfer tramgwydd o dorri rheoliad 11 neu 12, mae'n amddiffyniad os profir—

(a) bod y weithred sy'n peri'r tramgwydd wedi ei chyflawni cyn 29 Ionawr 2006;

(b) mai'r weithred sy'n peri tramgwydd oedd—

(i) gwerthu melysydd neu fwyd, neu

(ii) defnyddio melysydd mewn neu ar fwyd,

a oedd, yn y naill achos neu'r llall wedi ei roi ar y farchnad cyn 29 Gorffennaf 2005; ac

(c) na fyddai'r weithred sy'n peri'r tramgwydd wedi peri tramgwydd o dan Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995(**1**) pe na bai'r diwygiadau a wnaed gan reoliadau 3(1)(a) ac (c) a (2) a 4, 5, 6 a 7 o Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005(**2**) wedi bod mewn grym pan ddigwyddodd y weithred.

(**1**) O.S. 1995/3123 fel y'i diwygiwyd.
(**2**) O.S. 2005/1156 (Cy.73).